# Canllaw i'n gwasanaeth cyn ymgeisio ar gyfer cynllunio datblygiad

Cyhoeddwyd: Ebrill 2017, diweddariad Ebrill 2018

## Hanes y Fersiwn:

| Fersiwn y Ddogfen | Dyddiad Cyhoeddi | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Ebrill 2017 | Creu dogfen |
| 1.1 | Mehefin 2017 | Dolennau ychwanegol i Delerau ac Amodau, ffurflenni ar-lein a chanllawiau Datblygiadau o Arwyddocâd Rhyngwladol (DNS) |
| 1.2 | Gorffennaf 2017 | Gwnaed newidiadau i eglurdeb cwmpas y cyngor cyn ymgeisio |
| 1.3 | Awst 2017 | Eglurwyd faint o amser sydd ei angen i ymateb i geisiadau |
| 1.4 | Rhagfyr 2017 | Cadarnhawyd yr wybodaeth y dylid ei darparu ar gyfer y dyfynbris<br>Cadarnhawyd cwmpas y farn am ddim |
| 1.5 | Ebrill 2018 | Ychwanegu gwybodaeth forol |

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2019

## Nodyn

Mae hawlfraint yn berthnasol i holl Nodiadau Cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylech fod yn ymwybodol fod defnyddio unrhyw ddeunydd o fewn y ddogfen hon yn digwydd yn unol â Datganiad Hawlfraint ac Ymwadiad / Hysbysiad Safonol CNC. Gellir cael copi o hwn gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth yn timmynediadatwybodaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Bydd ailddefnyddio'r wybodaeth hon yn cael ei bennu gan Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005, ac unwaith eto gellir cael manylion gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth.

## Diben

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r gwasanaeth y gall Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei ddarparu yn ystod cyfnod cyn ymgeisio'r broses cynllunio datblygiad. Mae wedi'i anelu at ddatblygwyr a chwsmeriaid eraill sydd yn y broses o ddatblygu cais cynllunio, neu ganiatâd datblygu arall, ac eisiau cyngor gan CNC cyn cyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio priodol.

Mae'r canllaw yn amlinellu pa fathau o gyngor sydd ar gael am ddim a pha gyngor sydd ar gael am ffi. Mae hefyd yn esbonio sut y mae'r broses o geisio cyngor gan CNC yn gweithio yn ymarferol a thelerau ac amodau cynnig ein gwasanaethau.

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â nodiadau arweiniad wedi'u seilio ar destun ar ein rôl yn y system cynllunio datblygiad, y gellir ei weld trwy ein gwefan.

Sylwer: Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cyngor yr ydym yn ei ddarparu fel rhan o'n rôl fel cynghorydd yn y system cynllunio datblygiad. Mae gan CNC rôl hefyd fel rheolydd, nad yw wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. Mae rhagor o wybodaeth a chanllaw ar ein gwasanaeth rheoleiddio i'w gael ar ein gwefan: https://naturalresources.wales/how-we-regulate-you/?lang=cy

## Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth ar y testunau a ganlyn:


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Diben | 2 |
| 1 | Trosolwg | 3 |
| 2 | Pa bryd i ymgynghori â ni | 3 |
| 3 | Ein gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio | 3 |
| | Tabl 1: Gwasanaethau CNC yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio | 5 |
| 4 | Barn ragarweiniol | 7 |
| 5<br><br>5.1.5 | Y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Dewisol<br><br>Cyngor ar ddatblygiadau morol | 8<br><br>10 |
| 6 | Ein cyngor statudol | 10 |
| 7 | Adborth ar ein gwasanaeth | 11 |
| Atodiad 1 | Sut i gysylltu â ni | |
| Atodiad 2 | Diffiniad o ymateb o sylwedd | |

## 1. Trosolwg

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymgynghorai statudol yn y broses cynllunio datblygiad a thrwyddedu morol. Yn y rôl hon rydym yn cynghori'r ymgeiswyr a'r awdurdodau cynllunio a chaniatáu ar effaith bosibl cynigion datblygu ar amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru. Rydym hefyd yn cynghori ar ganlyniadau posibl y peryglon, megis perygl o lifogydd, i'r datblygiad ac yn sgil y datblygiad.

Rydym yn rhoi gwerth ar ymgysylltu â datblygwyr drwy gydol y broses cynllunio datblygiad oherwydd gall hyn arwain at ganlyniadau amgylcheddol gwell a gall hefyd helpu i sicrhau bod cyn lleied ag sydd bosibl o oediadau costus i'n cwsmeriaid. Am y rhesymau hyn rydym yn eich annog chi i siarad â ni drwy gydol y broses o ddatblygu eich cais cynllunio.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio lefel y gwasanaeth y gallwch ddisgwyl ei derbyn gennym. Bydd rhai agweddau o'n gwasanaeth yn disgyn o dan ein dyletswyddau statudol yn y system cynllunio datblygiad ac fe'u darperir am ddim, tra bydd eraill yn opsiynol ac ar gael am ffi.

Ar gyfer y ddogfen hon, mae cyngor cyn ymgeisio yn cael ei ddiffinio fel unrhyw gyngor y gallech ofyn amdano gan CNC cyn anfon cais i'r awdurdod cynllunio neu ganiatáu perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cyngor mewn perthynas â cheisiadau cynllunio (e.e. ceisiadau llawn, amlinellol, materion a gadwyd yn ôl ac amrywiadau mewn amodau) neu fathau eraill o geisiadau fel cais am drwydded forol, yn ogystal â chyngor mewn perthynas â cheisiadau ynghylch cyflawni amodau.

## 2. Pryd i ymgynghori â ni

Mae ein cysylltiad â'r broses cynllunio datblygiad wedi'i sbarduno gan nifer o ffactorau, gan gynnwys graddfa ac effaith y datblygiad, y gofyniad am Asesiad Effaith Amgylcheddol, a lleoliad y datblygiad. Rydym wedi cynhyrchu rhestr wirio blaenoriaeth sy'n esbonio'r mathau o achosion yr ydym yn ymateb iddynt. Mae'r rhestr hon i'w gweld yma:

https://naturalresources.wales/media/5270/150302-natural-resources-wales-and-planning-consultations-final-cym.pdf

Mae'r gwasanaethau a amlinellir yn y ddogfen hon ar gael ar gyfer yr holl gynigion datblygu, cyhyd â'u bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf ar y rhestr wirio.

## 3. Ein gwasanaeth yn y cyfnod cyn ymgeisio

Mae'r rhan fwyaf o'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau yn y broses cynllunio datblygiad yn ymwneud â'r awdurdod cynllunio neu ganiatáu perthnasol. Mae ein dyletswyddau mewn perthynas â chi, fel datblygwr, yn fwy cyfyngedig ac wedi eu hamlinellu mewn deddfwriaeth. Ar gyfer rhai mathau o gynigion datblygu mae gofyn i chi ymgynghori â

ni ac, fel rhan o'n dyletswyddau statudol, mae gofyn i ni ddarparu ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriadau hynny. Esbonnir y broses hon ymhellach yn adran 6.

Gan ein bod yn rhoi gwerth i bwysigrwydd ymgysylltiad drwy gydol y broses gynllunio, gallwn roi cyngor ychwanegol ichi ar sail dewisol, sy’n cynnwys y canlynol:

1. Barn ragarweiniol am ddim
2. Y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Dewisol y codir tâl amdano (Gwasanaeth CCD)

Nid oes rheidrwydd arnoch chi i ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau dewisol hyn, ond mae’r rhain yn cael eu cynnig fel opsiwn i ganiatáu mynediad i chi at gyngor manylach drwy gydol y broses gynllunio.

Dengys y tabl ar y dudalen nesaf pa agweddau ar ein gwasanaeth sydd ar gael am ddim a pha rai sy'n rhaid talu amdanynt. Mae hefyd yn dangos cwmpas ein dyletswyddau statudol. Mae adrannau 4-6 yn esbonio'n fanylach beth sy'n cael ei ddarparu ym mhob cyfnod a hefyd yn disgrifio'r broses ar gyfer ceisio'r gwahanol fathau o gyngor y mae CNC yn ei gynnig.

Wrth benderfynu pa lefel o wasanaeth y byddai eich datblygiad yn elwa ohono, mae'n werth ystyried bod ein dyletswyddau statudol i ddarparu ymateb i chi fel ddatblygwr yn gymwys ar gyfnod pan fydd eich cais eisoes wedi'i ddatblygu yn weddol fanwl. Os ydych chi angen mewnbwn gennym ni ar gyfnod cynharach sy'n mynd y tu hwnt i'n barn ragarweiniol am ddim mae gennych y dewis o ddefnyddio'n Gwasanaeth DAS y codir tâl amdano.

**Gwasanaethau CNC**

| Barn ragarweiniol (am ddim) | Gwasanaeth Cynghori Cynllunio dewisol (codir ffi) | Ein cyngor statudol (am ddim) |
|---|---|---|
| Byddwn yn anelu at ddarparu barn ragarweiniol ar gyfer pob datblygiad sy'n bodloni un neu'n fwy o'r meini prawf ar ein rhestr wirio blaenoriaeth ar gyfer ymgysylltu (gweler adran 2)<br><br>Bydd barn ragarweiniol yn cynnwys yr isod:<br><br>- Barn ragarweiniol ar ba ystyriaethau amgylcheddol sydd angen eu hystyried fel rhan o'ch cais.<br>- Amlinelliad o'r asesiadau a allai fod eu hangen i gefnogi'ch cais<br><br>**Am ragor o wybodaeth: gweler adran 4** | Os hoffech chi unrhyw gyngor sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir fel rhan o'r farn ragarweiniol, neu ein cyngor statudol, gallwch wneud cais amdano trwy'r Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Dewisol. Mae ffi yn gysylltiedig â defnyddio'r gwasanaeth hwn.<br><br>Mae'r Gwasanaeth CCD wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i'r testunau cyngor a ganlyn:<br><br>Tir halogedig<br><br>Diogelu dŵr daear<br><br>Asesiadau canlyniadau llifogydd<br><br>Cyngor mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol<br><br>Cyngor mewn perthynas â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol<br><br>• Cyngor mewn perthynas â datblygiadau morol<br><br>**Am ragor o wybodaeth: gweler adran 5** | Ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a datblygiadau o bwys yn unig, bydd rhaid ichi ymgynghori â ni os yw eich datblygiad yn bodloni meini prawf penodol. Mae hyn wedi ei nodi mewn deddfwriaeth ac yn cael ei egluro ymhellach yn adran 6 y ddogfen hon. Mae dyletswydd arnom ni yn ein tro roi ymateb o sylwedd i chi.<br><br>Byddwn yn darparu un ymateb o sylwedd yn unig i bob cais. Os bydd arnoch angen unrhyw gyngor cyn ymgeisio ychwanegol gan CNC, byddwn yn eich cyfeirio at y gwasanaeth cyngor dewisol.<br><br>Ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn unig, byddwn yn darparu ymateb ymgynghori Deddf Cynllunio 2008 Adran 42<br><br>Yn ychwanegol, ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, sydd â Datganiad Amgylcheddol hefyd, gallwn ofyn am wybodaeth hefyd o dan Reoliad 9 Cynllunio Seilwaith (Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009<br><br>Ar gyfer pob datblygiad arall, ble y mae angen Datganiad Amgylcheddol, gallwch ofyn am wybodaeth o dan Reoliad 15 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2016<br><br>Ar gyfer datblygiadau cynllunio tref a gwlad y mae angen Datganiad Amgylcheddol arnynt, gellir ceisio gwybodaeth am ddim o dan Reoliad 16 Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017<br><br>**Am ragor o wybodaeth am wneud cais am ymateb o sylwedd: gweler adran 6** |

## 4: Barn ragarweiniol

Rydym yn cynnig barn ragarweiniol am ddim ar gyfer pob cynnig datblygu sy'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf ar restr wirio CNC ar gyfer ymgysylltu.[1] Fel rhan o hyn rydym yn anelu at roi'r isod i chi:

- Barn ragarweiniol ar ba ystyriaethau amgylcheddol sydd wedi'u rhestru ar ein Rhestr Wirio sy'n rhaid eu hystyried fel rhan o'ch cais. Mae'r rhestr wirio hon i'w gweld yma: https://naturalresources.wales/media/5270/150302-natural-resources-wales-and-planning-consultations-final-cym.pdf
- Amlinelliad o'r asesiadau a allai fod eu hangen i gefnogi'ch cais

Dim ond unwaith y gallwch geisio barn ragarweiniol ar gyfer pob datblygiad yr ydych chi'n gysylltiedig ag ef.

### 4.1 Sut i geisio barn ragarweiniol:

Rydym wedi llunio ffurflen y gallwch ei defnyddio i geisio barn ragarweiniol. Mae ar gael yma:

https://naturalresources.wales/media/681464/request-form-for-preliminary-advice-cymraeg.docx

Mae'r ffurflen yn esbonio pa wybodaeth y byddem yn hoffi i chi ei darparu fel rhan o'ch cais. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu peth gwybodaeth i ni am eich datblygiad arfaethedig, megis y math o ddatblygiad, lleoliad y safle a sut yr ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau amgylcheddol posibl sydd wedi'u hadnabod.

Dylech anfon y ffurflen hon, a'r holl wybodaeth gysylltiedig, at y tîm cynllunio datblygiad perthnasol yn CNC. Dengys Atodiad 1 y manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r timau hyn. Byddwn yn anelu at ddarparu barn ragarweiniol i chi o fewn 21 diwrnod calendr i dderbyn y ffurflen a'r wybodaeth gysylltiedig.

### 4.2 Nodyn pwysig i ymgeiswyr

Er y byddwn ni'n ceisio rhoi cymaint o eglurder â phosibl i chi, dylech fod yn ymwybodol bod y farn ragarweiniol wedi'i seilio ar asesiad lefel uchel ar gyfyngiadau amgylcheddol sy'n ystyried y wybodaeth a oedd ar gael i ni pan wnaethpwyd y cais. Dylid nodi hefyd bod unrhyw gyngor neu gymorth yr ydym yn ei ddarparu yn ymgynghorol yn unig ac ni fydd yn rhwym, neu'n cyfyngu o gwbl ar CNC wrth ymgymryd â'i swyddogaethau statudol.

Dylai cyngor y byddwn yn ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn gael ei ystyried ochr yn ochr â'r canllaw sydd ar gael ar ein gwefan. Ni fyddwn yn ceisio dyblygu'r canllaw hon yn ein cyngor i chi, felly mae'n werth i chi gyfarwyddo'ch hun â hi i sicrhau bod eich cynnig cadw ati.
Dim ond unwaith ar gyfer pob datblygiad arfaethedig y byddwch chi'n gallu ceisio barn ragarweiniol. Os ydych chi angen unrhyw gyngor yn ychwanegol at hynny, mae gennych ddewis i ddefnyddio ein DAS y codir tâl amdano.

---

[1] https://naturalresources.wales/media/5271/150302-natural-resources-wales-and-planning-consultations-final-eng.pdf

## 5. Y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Dewisol (Y Gwasanaeth CCD)

Gallwch ddefnyddio'r DAS y codir tâl amdano os dymunwch gael cyngor mwy helaeth na'r hyn y gallwn ei ddarparu fel rhan o naill ai ein cyngor statudol (adran 6) neu'r farn ragarweiniol (adran 4).

Mae'r gwasanaeth wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i nifer fechan o destunau a mathau o ddatblygiad. Dros amser bwriadwn ehangu'r gwasanaeth hwn i gynnwys meysydd eraill sy'n berthnasol i'n rôl o fewn y system cynllunio, Mae Adran 5.1 yn cynnig mwy o fanylion am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Gwasanaeth DAS.

Nid yw'r Gwasanaeth DPA ond yn trafod y cyngor a ddarparwn yn ein swyddogaeth ymgynghorol, ac nid ein rôl o wneud penderfyniadau. Nid yw'n trafod y cyngor ar broses Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru.
Os ydych chi angen cyngor sy'n perthyn i ganiatâd neu drwydded CNC, gellir gwneud cais ar wahân am hyn trwy ddilyn y ddolen:

https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/?lang=cy

Bydd yr holl waith a wneir fel rhan o'r DAS o natur cynghori yn unig. Er enghraifft, gallwn gynnig cyngor ar gynnwys Asesiad Canlyniadau Llifogydd, ond eich cyfrifoldeb chi fydd paratoi'r adroddiad ac ymgymryd â'r asesiadau.

### 5.1. Cwmpas y gwasanaeth CCD

Mae'r mathau a ganlyn o gyngor yn gallu cael eu darparu fel rhan o'r gwasanaeth DAS:

**Cyngor sy'n perthyn i dir halogedig**

Fel rhan o'r gwasanaeth CCD gallwn:
- Werthuso'r asesiadau risg rhagarweiniol ac adroddiadau ymchwiliad safle deongliadol
- Gwerthuso asesiadau risg meintiol manwl (DQRA)
- Gwerthuso adroddiadau asesiad risg gosod pyst y seiliau
- Gwerthuso gwerthusiad opsiynau adferiad, strategaeth adferiad, ac adroddiadau gwirio

**Diogelu dŵr daear**

Fel rhan o'r Gwasanaeth CCD gallwn:
- Gynnig cyngor ar ofynion i fodloni ein datganiadau sefyllfa diogelu dŵr daear.
- Gwerthuso asesiadau risg dŵr daear a gyflwynwyd

**Asesiadau canlyniadau llifogydd**

Fel rhan o'r Gwasanaeth CCD gallwn:

- Adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd
- Adolygu'r adroddiad hydroleg

- Adolygu'r modelau afon/llanw hydrolig a ddefnyddir yn yr asesiad canlyniadau llifogydd

**Cyngor cysylltiedig â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**

Yn ychwanegol at yr uchod, gallwn ddarparu cyngor ar nifer o destunau ychwanegol ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae enghreifftiau o'r cyngor y gallwn ei ddarparu fel rhan o'r gwasanaeth CCD y codir tâl amdano ar gyfer yr achosion hyn yn cynnwys cyngor ar Asesiadau Effaith Amgylcheddol, Asesiadau Rheoliadau Cynefin, ac arolygon rhywogaethau.

### 5.1.1. Cyngor am ddatblygiadau morol

Yn debyg i'r cyngor ar gyfer y Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gallwn ddarparu cyngor ar lawer o bynciau ychwanegol ar gyfer datblygiadau morol. Gall hyn gynnwys cyngor ar Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, gofynion yr arolwg cyn gwneud cais a chyngor ar fonitro gofynion lle y bo'r rhain yn berthnasol.

## 5.2 Ffioedd

Mae ffi yn gysylltiedig â defnyddio'r Gwasanaeth CCD, sydd wedi'i gosod ar £125 yr awr. Codir TAW yn ychwanegol at hyn, os yw'n berthnasol.

Yn gyffredinol er y byddwn yn codi tâl am ein cyngor fesul awr, mewn rhai achosion efallai y byddwn yn cynnig y dewis i chi dalu am staff penodol. Gallwn ddefnyddio'r opsiwn hwn os ydych chi angen mewnbwn helaeth gan CNC, sydd gyfwerth ag o leiaf gwerth tri mis o gyngor. Mewn achosion lle bydd hyn yn berthnasol, byddwn yn trafod yr opsiwn hwn gyda chi, i sefydlu a yw'n opsiwn priodol i chi ai peidio.

Mae'r gwasanaeth CCD yn wasanaeth opsiynol, dewisol, ac nid oes rheidrwydd arnoch chi i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

## 5.3 Sut i wneud cais am gyngor cynllunio dewisol

Rydym wedi llunio ffurflen i wneud cais am y gwasanaeth taledig, a gellir dod o hyd iddi yma:

https://naturalresources.wales/media/681462/request-form-for-charged-service-cymraeg.docx

Bydd y ffurflen hon yn gofyn i chi amlinellu pa gyngor yr ydych chi eisiau ei geisio gennym ni a'r amserlen yr ydych chi'n ei ffafrio ar gyfer ei ddarparu. **Caniatewch o leiaf 30 diwrnod i'r gwaith ddechrau, o'r dyddiad yr ydych yn dychwelyd y ffurflen.** Dylech ddychwelyd y ffurflen a'r holl ddogfennau cysylltiedig â hi i'r tîm perthnasol. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r timau.

Sylwer: Os yw eich cais ar gyfer cyfarfod, dylech hefyd ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i'r cyfarfod hwn. Er mwyn cael trafodaeth ystyrlon, efallai y

bydd angen i CNC fwrw golwg dros y dogfennau hyn cyn y cyfarfod, ac os felly, byddwn yn adlewyrchu hyn yn ein hamcangyfrif o’r gost.

Ar sail y wybodaeth a ddarperir, byddwn yn ymateb i chi yn un o'r ffyrdd a ganlyn:

- Os ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ac yn gallu darparu'r gwasanaeth, byddwn yn llunio dyfynbris am y gwaith. Bydd hyn yn amlinellu cwmpas y gwaith y byddwn yn ei wneud i chi ac amcangyfrif o'r amser sy'n ofynnol i wneud hyn, ynghyd â'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
- Os na allwn ddarparu'r cyngor fel rhan o'r Gwasanaeth CCD, neu angen gwybodaeth bellach gennych chi, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Yn y naill achos neu'r llall, rydym yn anelu at gynnig ymateb i chi o fewn 21 diwrnod calendr i dderbyn y ffurflen.
Os byddwch chi'n penderfynu defnyddio ein gwasanaeth CCD, dylech ddychwelyd copi wedi'i lofnodi o'r dyfynbris i'r rheolwr achos CNC, a gall y gwaith ddechrau ar ôl hynny.

### 5.4 Defnyddio'r gwasanaeth CCD am gyngor ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a datblygiadau cymhleth eraill

Os ydych chi'n gweithio ar ddatblygiad arbennig o fawr neu gymhleth, megis Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol neu rhai mathau o ddatblygiad morol, efallai y bydd angen i ni gynnal trafodaethau mwy helaeth gyda chi i gytuno ar gwmpas y gwaith yr ydych chi eisiau i ni gyflenwi. Fel rhan o hyn, efallai y byddwn yn gofyn i chi lunio rhaglen waith fanwl, y byddwn yn ei defnyddio i asesu a oes gennym allu digonol i ddarparu'r gwasanaeth y gofynnir amdano. Fel rheol gyffredinol ni fyddwn yn codi tâl am unrhyw gyfarfodydd a allai fod yn ofynnol i drafod cytundeb codi tâl.

Ar gyfer datblygiadau mawr a chymhleth, mi all hi gymryd tipyn yn fwy na 21 diwrnod i roi amcangyfrif o gostau i chi. Os ydych chi'n ystyried defnyddio'r gwasanaeth CCD ar gyfer prosiect o'r fath, byddem yn argymell eich bod chi'n dechrau trafod gyda ni cyn gynted â phosibl, er mwyn osgoi oedi yn ddiweddarach yn y broses gynllunio.

### 5.5 Nodyn pwysig i ymgeiswyr

Bydd defnyddio'r gwasanaeth CCD ar sail gytundebol. Mae’n bosibl cael copi o Delerau ac Amodau llawn y cynllun a gynigir yma:

https://naturalresources.wales/media/681668/general-terms-and-conditions-for-chargeable-services-cym.pdf

Mae'r gwasanaeth CCD yn wasanaeth dewisol. Er ein bod yn anelu at fodloni'r galw am y gwasanaeth hwn, ar brydau hwyrach bydd ein gallu i wneud hynny wedi'i gyfyngu. O dan yr amgylchiadau hyn, rydym yn cadw'r hawl i beidio â chynnig y gwasanaeth.

Am resymau tebyg, ni allwn warantu y gallwn fodloni'r amserlenni a awgrymir bob amser ar gyfer cyflenwi yn eich ffurflen gais. Byddwn yn cadw golwg ar gyflenwi'r gwasanaeth er mwyn isafu ar y risg bod y naill sefyllfa neu'r llall yn digwydd.

Dylid nodi bod unrhyw gyngor neu gymorth yr ydym yn ei ddarparu yn gynghorol yn unig ac ni fydd yn rhwym, nac yn cyfyngu ar CNC mewn unrhyw ffordd wrth berfformio ei swyddogaethau statudol. Bydd yr holl gyngor a ddarperir gan CNC wedi'i seilio ar y wybodaeth sydd ar gael i ni, a'r polisïau sydd wedi'u sefydlu bryd hynny.

## 6. Ein cyngor statudol

Yn ychwanegol at gyngor dewisol, rydym hefyd yn darparu cyngor a gwybodaeth o dan ein dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol yn y system cynllunio datblygiad. Rydym yn darparu hyn am ddim, ond sylwer ein bod yn gallu adfer y costau ar gyfer darparu rhai mathau o wybodaeth ac efallai y byddwn yn ceisio gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'r tabl ar dudalen 4 yn dangos beth sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r cyngor statudol hwn.

Ar gyfer Datblygiadau Mawr a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae dyletswydd arnoch chi i ymgynghori â ni cyn anfon eich cais i'r awdurdod cynllunio neu ganiatáu perthnasol, os yw eich cynnig yn bodloni un neu'n fwy o'r meini prawf a amlinellir mewn deddfwriaeth. O ganlyniad i hynny, byddwn yn darparu "ymateb o sylwedd". Mae Atodiad 2 yn esbonio beth sy'n rhan o hyn.
Byddwn yn darparu un ymateb o sylwedd yn unig i bob cais. Os bydd arnoch angen unrhyw gyngor cyn ymgeisio ychwanegol gan CNC, byddwn yn eich cyfeirio at y gwasanaeth cyngor dewisol.

Mae'r broses ar gyfer ceisio ymateb o sylwedd wedi'i amlinellu mewn deddfwriaeth. Mae hefyd yn amlinellu pa wybodaeth sydd angen ei chyflwyno ochr yn ochr â'r cais. Dim ond ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflwyno yn unol â'r ddeddfwriaeth y mae gofyn i ni ddarparu ymateb o sylwedd ac mae'r adran hon yn cynnig rhagor o wybodaeth ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys.

### 6.1 Gwneud cais am ymateb o sylwedd ar gyfer datblygiadau o bwys

Os yw'ch datblygiad yn disgyn o fewn meini prawf Datblygiad o Bwys, bydd angen i chi ymgynghori â ni yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio os yw'ch cynnig yn bodloni un neu'n fwy o'r meini prawf a amlinellir yn Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) (Diwygiad) 2016 Atodlen 2 ar gyfer ymgynghori â CNC.

Er mwyn ymgymryd â'r ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol, dylech ddefnyddio'r hysbysiad a amlinellir yn atodlen 1C y gorchymyn, neu ffurflen gyfwerth.

Dylai'r hysbysiad a'r holl wybodaeth ategol gael eu hanfon at y Tîm Cynghori Cynllunio Datblygiad perthnasol yn CNC. Mae manylion cyswllt i'w cael yn Atodiad 1. Ar gyfer datblygiadau o bwys rydym yn darparu ymateb o sylwedd o fewn 28 diwrnod, neu ar amser arall o'r fath y cytunir rhyngoch chi a CNC.

### 6.2 Gwneud cais am ymateb o sylwedd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Yn achos Datblygiadau o Arwyddocâd Rhyngwladol, rydym wedi cynhyrchu canllawiau sy’n egluro pryd a sut y dylid ymgynghori â ni yn ystod y cam cyn ymgeisio statudol. Gellir cael mynediad i’r rhain yma:

https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-developers/developments-of-national-significance/?lang=cy

## 7. Adborth ar ein gwasanaeth

Er mwyn hysbysu datblygiad ar ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn gofyn i chi lanw arolwg ar-lein byr am eich profiad o ddefnyddio ein gwasanaeth CCD.

Os byddwch chi'n profi unrhyw broblemau â'r gwasanaeth, gellir codi'r rhain gydag arweinydd achos penodol CNC neu Uwch Gynrychiolydd CNC. Mae manylion cyswllt ar gyfer y staff perthnasol ar y dyfynbris y byddwn yn ei roi i chi, os ydych chi'n defnyddio'r gwasanaeth y codir tâl amdano.

Byddwn bob amser yn anelu at ddatrys problemau yn gyfeillgar. Mae telerau ac amodau'r gwasanaeth CCD, sydd ar gael ar ein gwefan, yn cynnig rhagor o wybodaeth am y broses y bydd CNC yn ei dilyn os na ellir datrys problemau yn y ffordd hon.

## Atodiad 1: Sut i gysylltu â ni

| | |
|---|---|
| Am brosiectau yn Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr | **E-bost:**<br>swplanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>**Cyfeiriad Post:**<br>Maes Newydd<br>Llandarcy<br>Castell-nedd Port Talbot<br>SA10 6JQ |
| Ar gyfer prosiectau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Sir Fynwy, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful | **E-bost:**<br>southeastplanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>**Cyfeiriad Post:**<br>Rivers House<br>Parc Busnes Llaneirwg<br>Llaneirwg<br>Caerdydd<br>CF3 0EY |
| Ar gyfer prosiectau yng Ngwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Parc Cenedlaethol Eryri | **E-bost:**<br>northplanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>**Cyfeiriad Post:**<br>Maes y Ffynnon<br>Penrhosgarnedd<br>Bangor<br>Gwynedd<br>LL57 2DW |

| | |
|---|---|
| Ar gyfer prosiectau ym Mhowys a Cheredigion | **E-bost:**<br>northplanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>**Cyfeiriad Post:**<br>Adeilad Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 3UR |

Ar gyfer datblygiadau morol, anfonwch eich ceisiadau at y mewnflwch/mewnfylchau mwyaf perthnasol

## Atodiad 2: Diffiniad o Ymateb o Sylwedd

Mae diffiniad ymateb o sylwedd wedi'i amlinellu mewn deddfwriaeth, ble y mae wedi'i ddiffinio fel ymateb sydd naill ai'n:

(a) datgan nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw sylw i'w wneud;

(b) datgan nad oes gan yr ymgynghorai arbenigol unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig ac yn cyfeirio'r ymgeisydd at gyngor safonol cyfredol gan yr ymgynghorai arbenigol ar destun yr ymgynghoriad;

(c) cynghori'r ymgeisydd o unrhyw bryderon a adnabuwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hyn; neu

(d) cynghori'r ymgeisydd bod gan yr ymgynghorai arbenigol bryderon ac y byddai'n gwrthwynebu cais am ganiatâd cynllunio a wneir o dan yr un telerau neu sy'n sylweddol debyg ac yn amlinellu'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny

**Cyhoeddwyd gan:**
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwener 8am-6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni cheir ailgynhyrchu’r ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru